Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 24 Chwefror 2016 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2016/17** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Cyllideb Sylfaenol GwE 2016/17 (Atodiad 1) a Chyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau i'r Cydbwyllgor (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2016/17 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog, cynnydd yswiriant gwladol a CPI.

**2. Arbedion**

2.1 Mae'r gyllideb yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru i gynnwys targed arbedion sy'n cyfateb i leihad o 1.6% ar gyllideb craidd 2015/16 GwE.

2.2 Sylwer fod llinell "Arbedion i'w Darganfod" sy'n lleihau gwariant arfaethedig 2016/17 o £131,180 yn Atodiad 1, a'r rhaniad fesul awdurdod yn yr incwm.

2.3 Mae eglurhad manwl o resymeg y rhaniad hwnnw yn Atodiad 2.

**3. Cronfa Tanwariant**

3.1 Mae'r adroddiad 'Adolygiad Tymor yr Hydref 2015' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn rhagweld bydd £271,486 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2016.

3.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer unrhyw elfen o'r targed arbedion ni all GwE ei ddarganfod yn ystod 2016/17.

**4.0 Atodiadau:**

4.1 Atodiad 1 - Cyllideb sylfaenol GwE ar gyfer 2016/17

4.2 Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2016/17

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Sylwadau i'w gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.